



ADRODDIAD YMGYNGHORI STATUDOL



Cynnwys

Adran	Disgrifiad	Rhif y dudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Gwybodaeth Gefndir	
2.1	Gwybodaeth ysgol	4
2.2	Dosbarthiadau Adnodd Dysgu	5
2.3	Capasiti	6
2.4	Darpariaeth ADY	6
2.5	Newidiadau cyd-destunol ers y cais cychwynnol	7
3	Y Cynnig	
3.1	Y Cynnig sy'n Amodol i Ymgynghoriad Statudol	7
3.2	Cynnal y cydbwysedd	8
3.3	Dewisiadau Arfaethedig	8
4	Ymgynghori	
4.1	Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy	9
4.2	Cyfarfodydd	10
4.3	Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc	10
4.4	Ymateb i'r ymgynghoriad	10
5	Asesiad Effaith Cydraddoldeb	12
6	Crynodeb ac Argymhellion	
6.1	Crynodeb	12
6.2	Argymhelliad	12

1. Cyflwyniad

Yng Ngorffennaf 2017, gwnaeth corff llywodraethol a phennaeth Ysgol Sŵn y Don gais i ddod â chartrefu dosbarthiadau adnodd anghenion addysgol arbennig Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol i ben oherwydd eu pryder ynghylch y nifer cynyddol o ddisgyblion a'u hamgyffred o'r posibilrwydd y bydd cynnydd pellach mewn niferoedd dros y blynyddoedd i ddod. Roeddent yn dweud bod y nifer cynyddol o ddisgyblion yn yr ysgol yn rhoi pwysau am le yn yr adeilad, yn arbennig wrth drefnu gwahanol grwpiau blynyddoedd a dosbarthiadau.

Mae Ysgol Sŵn y Don, (Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Iau Tan y Marian yn flaenorol) yn cartrefu dau ddosbarth adnodd, un ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen (4-7 oed), a'r llall ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed).

Lluniwyd adnoddau dysgu'r Awdurdod i gefnogi ac ychwanegu at addysg prif ffrwd disgyblion gydag anghenion dysgu a nodwyd, ac mae eu hanawsterau'n effeithio'n arwyddocaol ar eu cynnydd academaidd. Mae dosbarthiadau adnodd dysgu yn cynnig cyfle i addysgu mewn grŵp bychan a gor-ddysgu sgiliau sylfaenol, gan gynnwys iaith, llythrennedd a rhifedd. Pwrpas yr adnodd dysgu yw cynnig cyfleoedd dysgu dwys ychwanegol er mwyn cefnogi disgyblion wrth ddychwelyd at y cwricwlwm prif ffrwd llawn amser.

Mae'r Awdurdod yn ariannu saith dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yng Nghonwy ac un adnodd Cyfnod Sylfaen. Nid oedd gan yr Awdurdod fwriad i leihau'r gefnogaeth hon, felly roedd y cynnig yn ymwneud yn unig ag adleoli posib un neu'r ddau ddosbarth adnodd.

Dywed "Cod Trefniadaeth Ysgol" statudol Llywodraeth Cymru bod newidiadau sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion yn cynnwys, ***"ychwanegu neu dynnu darpariaeth AAA neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth. Mae hyn pan fo darpariaeth mewn ysgol prif ffrwd ond mae'r disgyblion sy'n cael eu derbyn yn ychwanegol at rif derbyn yr ysgol. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth hefyd gael ei gydnabod gan yr awdurdod lleol fel un sydd wedi'i gadw ar gyfer disgyblion gyda AAA."***

Yn eu cyfarfod ar 19 Rhagfyr 2017, penderfynodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar adleoli posibl un neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu ychwanegol, yn unol ag adran 2.2 'Newidiadau Rheoledig' y Cod Trefniadaeth Ysgol, 2013.

Roedd y cynnig a oedd yn amodol i ymgynghoriad statudol fel a ganlyn: "Y gallai un, neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu sydd wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Sŵn y Don gael eu hadleoli i ysgol/ysgolion eraill yn yr un dalgylch neu ddalgylch cyfagos, (h.y. dalgylchoedd ysgolion Bryn Elian, Eirias neu Emrys ap Iwan)".

Roedd y cyfnod ymgynghori statudol rhwng **12 Mawrth a 1.00 p.m., 23 Ebrill 2018**, ac roedd yn seiliedig ar y cynnig i symud un neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu ychwanegol i leoliad lleol arall neu i ardaloedd cyfagos.

2. Gwybodaeth Gefndir

2.1 Gwybodaeth Ysgol

Ysgol gymunedol yw Ysgol Sŵn y Don i ddisgyblion 3 - 11 oed ac mae wedi'i lleoli ar gyrion Hen Golwyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Ffurfiwyd yr ysgol ym Medi 2015 pan gyfunwyd Ysgol Iau Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos, ac mae wedi'i lleoli ar safle'r gyn ysgol iau ers Medi 2016 pan orffennwyd y gwaith adeiladu i ymestyn yr adeilad blaenorol.

Pan oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu, roedd 131 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gyda 119 ohonynt o oed ysgol statudol. Mae'r nifer wedi cynyddu ers Medi 2013 ac mae'r manylion fel a ganlyn:

Y Flwyddyn Academaidd	Gwir nifer y disgyblion (Data PLASC Medi)
2013/2014	88
2014/2015	89
2015/2016	88
2016/2017	99

Mae gan yr ysgol gyfanswm o chwe phrif ddsbarth a dau ddsbarth llai ar gyfer y ddau ddsbarth adnodd dysgu. Mae'r dosbarthiadau fel a ganlyn yn bresennol:

- 1) Meithrin a Derbyn (26 disgybl: 12 *meithrin* a 14 *derbyn*)
- 2) Blwyddyn 1 (19 disgybl)
- 3) Blwyddyn 2 (26 disgybl)
- 4) Blwyddyn 3 a 4 (28 disgybl: 10 Blwyddyn 3 a 18 Blwyddyn 4)
- 5) Blwyddyn 5 (21 disgybl)
- 6) Blwyddyn 6 (11 disgybl)
- 7) Grŵp chwarae/dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen (12 disgybl)
- 8) Dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 (12 disgybl)

"Mae gan tua 70% o blant hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae gan tua 42% o'r plant anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae gan rai ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae bron yr oll o'r disgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sy'n siarad Cymraeg gartref", (Adroddiad Estyn, Ionawr 2017).

Mae rhagamcanion blynyddol disgyblion am y pum mlynedd nesaf, (heb gynnwys y cynnydd posibl a gysylltwyd â chodi tai ar safle cyfagos Tŷ Mawr), fel a ganlyn:

Blwyddyn Academaidd	Rhagolygon Nifer y Disgyblion
2018/2019	120
2019/2020	114
2020/2021	110

2021/2022	113
2022/2023	101

Y nifer o blant a ragamcanwyd a allai symud i'r ardal o ganlyniad i godi tai ar safle Tŷ Mawr, pe bai'n cael ei ganiatáu, yw 50 o blant oed ysgol gynradd a 41 o blant oed ysgol uwchradd.

Yn ychwanegol at y pwysau a achoswyd gan y cynnydd yn y nifer o ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd hon, ar ôl yr arolwg a gafwyd yn Ionawr 2017, fe ystyriodd Estyn bod perfformiad yr ysgol a'i gobeithion o wella yn 'Anfoddhaol'. O ganlyniad i hyn, roedd yn cael ei gydnabod bod angen rhoi'r ysgol mewn camau arbennig, ac mae Estyn yn parhau i fonitro'r ysgol yn dymhorol.

Teimlai corff llywodraethol Ysgol Sŵn y Don y byddent yn gallu trin holl argymhellion arolwg diweddar Estyn yn well trwy wahanu grwpiau blwyddyn, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 2. Gan gymryd hyn i ystyriaeth a'r cynnydd yn nifer y disgyblion, byddai hyn wedi golygu defnyddio o leiaf un o'r dosbarthiadau llai sy'n cael eu defnyddio'n bresennol fel dosbarth adnodd dysgu'r Awdurdod Lleol.

2.2 Dosbarthiadau Adnodd Dysgu

Mae'r ddau ddosbarth adnodd dysgu sydd wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Sŵn y Don fel rhan o gontinwmm o ddarpariaeth i ddisgyblion gydag anghenion addysgol dysgu ychwanegol yng Nghonwy. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnodd dysgu yn parhau i gael ei gofrestru yn ei ysgol gartref, gyda'r nod ei fod yn ail integreiddio i'w ysgol gartref os a phryd y bydd yn barod. Mae ysgolion cartref y disgyblion hyn yn cael eu hannog i gadw mewn cysylltiad clos gyda'r disgyblion a'u teuluoedd, a sicrhau bod disgyblion yn cael eu gwahodd yn ôl i'w hysgol gartref pan fo digwyddiadau ac achlysuron arwyddocaol.

Mae pob lleoliad mewn dosbarth adnodd dysgu'n cael ei gytuno gan y panel cymedroli anghenion dysgu ychwanegol aml asiantaeth yn ôl set o feini prawf mynediad a gytunwyd.

Mae'r dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen yn lleoliad llawn amser fel bod teithio a newid yn ystod y dydd yn cael ei gadw i'r lleiafswm i ddisgyblion iau. Mae cludiant tacsï yn cael ei ddarparu i Ysgol Sŵn y Don o ac i gyfeiriad cartref y disgybl bob bore a phnawn ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Y dosbarth adnodd dysgu cyfnod sylfaen yw'r unig ddosbarth sylfaen a luniwyd yn benodol ar gyfer disgyblion gydag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys yng Nghonwy. Mae'n darparu ar gyfer uchafswm o 12 disgybl ac mae ar gael ar gyfer disgyblion 4 - 7 oed o unrhyw ysgol yng Nghonwy.

Mae naw disgybl yn bresennol yn mynychu'r adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen. Mae dau ddisgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Sŵn y Don fel eu hysgol gartref, gydag un yn byw o fewn ac un y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r saith disgybl arall wedi'u cofrestru mewn saith ysgol arall yng Nghonwy

Mae saith dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yng Nghonwy, ac wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Porth y Felin, Ysgol Tudno, Ysgol Pencae, Ysgol Awel y Mynydd, Ysgol Maes Owen ac Ysgol Sŵn y Don. Lleoliadau rhan amser yw'r dosbarthiadau adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2, gyda'r disgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd yn y pawns. Mae athrawon a staff cefnogi yn cefnogi disgyblion a staff yn eu hysgolion prif ffrwd yn ystod sesiynau'r pawns. Mae disgyblion yn cael eu cludo mewn tacsï o'u cyfeiriad cartref i Ysgol Sŵn y Don bob bore ac yn ôl i'w hysgol gartref erbyn amser cinio.

Lleolwyd dosbarthiadau adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 mewn ymdrech i sicrhau bod darpariaeth ar gael mor lleol ag sy'n bosibl. Gyda hyn mewn cof, cynigir bod y dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn cael ei symud i safle sydd mor agos ag sy'n bosibl i'r safle presennol.

Mae 11 o ddisgyblion yn bresennol yn mynychu'r dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Sŵn y Don. Mae wyth o'r disgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol; dau ddisgybl yn byw yn nalgylch yr ysgol a chwech o ddisgyblion o du allan i ddalgylch yr ysgol.

2.3 Capasiti

Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu i gyfuno'r ddwy ysgol, mae lle i 149 o ddisgyblion; fodd bynnag roedd pryderon y corff llywodraethol a'r pennaeth yn ymwneud â nifer y dosbarthiadau a sut y gellid eu defnyddio'n effeithiol i gartrefu'r holl ddosbarthiadau prif ffrwd ac adnodd dysgu presennol, yn arbennig mewn ymateb i argymhellion Estyn, gwella safonau a chanlyniadau i bob disgybl, (gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnoddau dysgu), hyrwyddo ymgynnwys a blaenoriaethu lles.

Pryderai'r corff llywodraethol a'r pennaeth ynghylch gallu'r ysgol i ddarparu addysg a chyfleoedd dysgu o ansawdd da yn y cyd-destun presennol heb y gallu i fod â grwpiau blwyddyn unigol, yn arbennig ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2, a theimlant na allai ymgysylltiad, perfformiad a chanlyniadau i ddisgyblion ond cael eu gwella trwy edrych ar le ffisegol a chyflunio grwpiau dosbarth er mwyn hwyluso gweithredu eu cynllun gweithredu ac argymhellion Estyn.

Teimlwyd bod pryder ynghylch canlyniadau a chynnydd yn effeithio ar y disgyblion yn nosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2, yn arbennig mewn perthynas â chyfleoedd ymgynnwys llwyddiannus ac ystyrlon o fewn amgylchedd dysgu tawel a chadarnhaol sydd wedi'i sefydlu mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

2.4 Darpariaeth ADY

Cynigiwyd y byddai adleoli un neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu o bosibl, yn galluogi canolbwyntio ar ddatblygu addysgu a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel i bob disgybl, a byddai'n cynnig cyfle i wella ar, a gwella darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Sŵn y Don a darpariaeth adnodd dysgu'r Awdurdod Lleol.

Awgrymwyd pe bai'r ddau ddosbarth adnodd dysgu yn aros ar safle'r ysgol, y byddai trafferthion yn parhau gyda chydlynu grwpiau dosbarth a dosbarthiadau yn ddigonol, gyda'r posibilrwydd o'r dosbarth adnodd dysgu yn cael ei orfodi i rannu lle gyda

grwpiau blwyddyn/grŵp chwarae eraill. Nid oedd hyn yn sefyllfa ddelfrydol a mynegwyd pryderon ynghylch ansawdd darpariaeth ADY a chyfleoedd addysgu a dysgu i bob disgybl sydd yn yr ysgol.

2.5 Newidiadau Cyd-destunol ers y Cais Cychwynnol

Ers gwneud y cais cychwynnol a chychwyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd arwyddocaol ynghylch argymhellion Estyn a gweithredu cynllun gweithredu'r ysgol. Mae pryderon ynghylch gallu'r ysgol i ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu da, a darparu cyfleoedd ymgynnwys ystyrion, wedi gostwng yn sylweddol, ac mae hyder yn cynyddu y gall pob amcan gael ei gyflawni gan gadw'r ddau ddosbarth adnodd dysgu ar y safle.

Mae'n cael ei gydnabod bod y flwyddyn academaidd sydd ar ddod yn peri'r her fwyaf i'r ysgol yn nhermau nifer y disgyblion, anghenion dysgu ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad; fodd bynnag mae uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol yn gynyddol hyderus fod ganddynt y systemau cefnogi yn eu lle i ymateb i'r angen.

Hefyd, mae ystyriaeth o sut all sgiliau'r staff adnodd dysgu gael eu defnyddio i gefnogi cyd-destun yr ysgol ehangach wedi cynnig cyfle i'r athro adnodd Cyfnod Allweddol 2 weithio gyda grŵp ehangach o ddisgyblion yn y pwn i hyrwyddo ymgynnwys, lles a mynediad cwricwlwm y disgyblion adnodd a phrif ffrwd. Mae hwn yn fodel gweithio hynod gadarnhaol, ac yn dangos ymroddiad newydd yr ysgol i'r dosbarth adnodd dysgu yn ffurfio rhan hanfodol o'r ysgol fel cyfanrwydd. Mae'r tîm staff ehangach a disgyblion yn elwa o rannu sgiliau a phrofiadau staff adnodd dysgu ac mae'r pennaeth gweithredol a'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn ymroddedig i athroniaeth a manteision cael dosbarthiadau adnodd dysgu fel rhan o'r ysgol.

Fe wnaeth yr Awdurdod Lleol ymateb i'r cais cychwynnol gan eu bod yn dymuno cynnal lefel ac ansawdd y ddarpariaeth fel rhan o gontinwwm cefnogaeth ADY y Sir, ac roedd yn ymroddedig i drin unrhyw bryder neu fater a allai effeithio ar effeithioldeb y ddarpariaeth. Mae'r newidiadau a'r cynnydd a ddisgrifiwyd uchod wedi adnewyddu hyder yr Awdurdod Lleol y gallai'r dosbarthiadau adnodd dysgu aros yn eu lleoliad presennol heb effeithiau niweidiol neu negyddol arwyddocaol ar ansawdd ac ar brofiadau ac ymgynnwys y disgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau.

3 Y Cynnig.

3.1 Y cynnig sy'n amodol i ymgynghoriad statudol

Y gallai un, neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Sŵn y Don gael eu hadleoli i ysgol/ysgolion eraill o fewn yr un dalgylch neu ddalgylch cyfagos, (h.y. dalgylch ysgolion Bryn Elian, Eirias neu Emrys ap Iwan).

3.2 Cadw'r cydbwysedd

Roedd cadw'r cydbwysedd, fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, yn golygu bod y dosbarthaidau adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod wedi'u lleoli ar safle Ysgol Sŵn y Don.

Yr anfanteision a gafodd eu hamgyffred pan oedd y Ddogfen Ymgynghori yn cael ei hysgrifennu oedd:

“Cynigir bod cynnal y ddau ddosbarth adnodd yn yr ysgol bresennol yn risg yn nhermau sicrhau bod cyfleoedd addysgu a dysgu o'r safon uchaf i ddisgyblion a'r ysgol ehangach. Mae angen sicrhau bod safonau addysgol a lles disgyblion yn cael y flaenoriaeth uchaf. Wrth ystyried y cynnydd posibl yn nifer y disgyblion ynghyd â'r codi tai arfaethedig yn yr ardal, mae'n hanfodol bod lle i ddisgyblion yn cael ei drin ymlaen llaw yn hytrach ar ôl y cynnydd mewn niferoedd”.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Awdurdod Lleol nawr yn fodlon bod y corff llywodraethol a'r pennaeth gweithredol yn trin y risg ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt mewn modd cadarnhaol ac yn annibynnol o anghenion llety'r dosbarthiadau adnodd dysgu.

3.3 Dewisiadau arfaethedig

Cynigiodd yr Awdurdod yn gyntaf bod lleoliad(au) eraill yn cael eu ceisio mewn ysgol(ion) cynradd yn nalgylch Bryn Elian ac yna yn nalgylch Eirias ac Emrys ap Iwan.

Gallai hyn fod wedi golygu bod y ddau ddosbarth adnodd yn symud i leoliad newydd ar yr un safle (fel yr oeddent yn Ysgol Sŵn y Don); y ddau ddosbarth adnodd yn symud i ddwy ysgol wahanol; neu un dosbarth adnodd yn symud i leoliad newydd a'r llall yn aros yn Ysgol Sŵn y Don.

Ar ôl ystyried y dewisiadau a'u cyfateb yn erbyn meini prawf hanfodol cawsant eu gwrthod, a'r posibilrwydd o symud y dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 i Ysgol Iau Cystennin oedd y dewis y dymunwyd ymgynghori arno.

Ni chafwyd ac ni awgrymwyd dewisiadau eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ymchwiliwyd ysgolion eraill gyda lle posibl yn nalgylchoedd Eirias, Bryn Elian ac Emrys ap Iwan, ond cawsant eu gwrthod gan nad oeddent yn cyfarfod y meini prawf angenrheidiol neu roedd ganddynt ddosbarthiadau adnodd eisoes ar y safle.

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gredu bod y brwdfrydedd ac ymrwymiad i ddarpariaeth adnodd dysgu ac ymgynnwys a ddangoswyd gan gorff llywodraethol, pennaeth a staff Ysgol Cystennin yn hynod gadarnhaol ac i'w groesawu. Gyda hyn mewn cof, rydym yn cynnig y dylid ystyried yr ysgol fel lleoliad posibl ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol pe bai ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ynghylch adleoli neu ymestyn y ddarpariaeth sy'n bodoli.

9. Ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng **12 Mawrth** a **23 Ebrill 2018**.

4.1 Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori hon yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru at y canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

Anghenion Cod Trefniadaeth Ysgol 006/2013	Dosbarthwyd i:
Yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cyflwyno'r cynnig
Unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth AAA pwrpasol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion gyda datganiad ynddo.	Cyngor Sir Ddinbych
Awdurdodau Addysg yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig sydd yn yr ardal ble mae'r ysgol sy'n debyg o gael ei heffeithio wedi'i lleoli.	Yr Eglwys yng Nghymru – Esgobaeth Llanelwy Esgobaeth Gatholig Wrecsam
Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig.	amherthnasol
Corff llywodraethol unrhyw ysgol sy'n amodol i'r cynnig ac unrhyw ysgolion sy'n debyg o gael eu heffeithio gan y cynnig.	Cyrff llywodraethol holl ysgolion cynradd Conwy
Rhieni (a darpar rieni ble bo hynny'n bosibl) gofalwyr a gwarcheidwaid.	Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu'r ddau ddogfen adnodd dysgu.
Gweinidog Cymru	Kirsty Williams (AC).
Aelodau'r Cynulliad a Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal.	Michelle Brown (AC), Janet-Finch Saunders (AC), Llŷr Huws (AC), Mark Isherwood (AC), Mandy Jones (AC), Darren Millar (AC) Guto Bebb (AS), David Jones (AS)
Estyn	Anne Keane – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru
Undebau athrawon a staff addysgu a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n amodol i'r cynnig.	
Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Arwyn Thomas – Prif Swyddog GwE
Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru
Unrhyw gyngor tref neu gymunedol yn y cylch mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n amodol i'r cynnig.	Cyngor Tref Abergele, Cyngor Tref Bae Colwyn, Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel, Cyngor Cymuned Llysfaen, Cyngor Cymuned Mochdre, Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Partneriaeth Leol Cymunedau'n Gyntaf	
Cyrff iechyd perthnasol sydd â diddordeb.	Dr Hamilton Grantham - Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Arall	Yr holl staff anghenion dysgu ychwanegol Holl benaethiaid Conwy Yr holl staff mewn dosbarthiadau adnodd arbennig yng Nghonwy

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chopïau ar gael o Wasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Llandrillo yn Rhos, LL28 4UL.

4.2 Cyfarfodydd



Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion ADY Conwy sesiynau galw heibio i drafod y cynigion gydag athrawon, staff atodol, rhieni a gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Grŵp	Dyddiad	Amser	Lleoliad
Rhieni, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd	22.03.18	14.00 - 15.00	Ysgol Sŵn y Don
Staff yr ysgol	22.03.18	15.00 – 16.30	Ysgol Sŵn y Don
Rhieni, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd	12.04.18	14.00 – 15.00	Ysgol Cystennin
Staff yr ysgol	12.04.18	15.00 – 16.30	Ysgol Cystennin

4.3 Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

Cynhwyswyd y disgyblion a allai gael eu heffeithio gan y symud posibl mewn trafodaeth a thasg dosbarth datblygiadol priodol gyda'u hathro ynghylch manteision ac anfanteision y dosbarthiadau adnodd yn aros yn Ysgol Sŵn y Don neu'n symud i ysgol arall.

Roedd eu sylwadau fel a ganlyn:

		
Yn Sŵn y Don	Mae'n le distaw, oherwydd ei fod yn hwyl, mae'n ystafell fwy neis gyda lle y tu allan i wneud ein gwaith, mae ein holl ffrindiau yma, rydym yn hoffi'r holl athrawon, rydym yn hoffi'r gwobrau, mae'n agos ac nid oes angen teithio ymhell, rydym yn hoffi mynd ar deithiau ysgol a gweithgareddau, rydym yn mwynhau siarad Cymraeg yma, ystafell fawr braf, rydym yn parchu ein hathrawon a'r rheolau, rydym yn cael help pan rydym yn flin.	Mae rhai plant yn ddrwg, rhai yn fwlis.
Mewn ysgol wahanol	Byddem yn dod i arfer, cyfarfod ffrindiau newydd, cyfarfod athrawon newydd, gallai cinio gwahanol fod yn flasus, efallai y byddai'n well.	Byddai gennym ofn lle newydd, byddem yn swil wrth weld pobl newydd, gallai fod yn anodd mewn adeilad mawr gwahanol, byddai'n anodd dod i arfer ag ysgol newydd, athrawon newydd ac ni fyddem yn eu hadnabod.

4.4 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd dau ymateb yn ystod yr ymgynghoriad. Dyma grynoded o'r materion a godwyd ac a drafodwyd yn y sesiynau galw heibio.

4.4.1 Darparu gwybodaeth i rieni

Holodd un yngylch darparu gwybodaeth i rieni Ysgol Sŵn y Don. Gallwn gadarnhau y darparwyd gwybodaeth i rieni trwy lythyr a anfonwyd i'r cartref gyda phob disgybl, cylchlythyr yr ysgol ac ar dudalen Facebook yr ysgol.

4.4.2 Proffil Disgybl

Gofynnwyd pam ystyried symud dosbarth adnodd dysgu CA2 pan fo 73% o ddisgyblion o Ysgol Sŵn y Don. Er bod 8 o'r 12 disgybl wedi'u cofrestru yn yr ysgol, dim ond dau ddisgybl oedd yn byw yn y dalgylch a phenderfyniad y rhieni oedd cofrestru'r chwe disgybl yn yr ysgol ar ôl eu lleoliad rhan amser yn y dosbarth adnodd.

Er bod y daw'r disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth adnodd CA2 yn bresennol o nifer o ysgolion, mae'n cael ei gydnabod y bu cyfran sylweddol o'r disgyblion a oedd yn dod i'r dosbarth yn dod o ddalgylch Ysgol Sŵn y Don mewn blynyddoed blaenorol.

4.4.3 Y cynnig i symud adnodd dysgu CA2 i Ysgol Cystennin

Gofynnodd un o'r ymatebion ysgrifenedig pam mai hwn oedd y dewis a ddymunwyd yn hytrach nag adleoli'r adnodd Cyfnod Sylfaen. Gwnaed y cynnig hwn ar ôl trafodaeth ac ymgynghori ymlaen llaw gyda phennaeth a chorff llywodraethol Ysgol Cystennin ac Ysgol Mochdre a chanfod gofod ar y safle Cyfnod Allweddol 2.

4.4.4 Teithio

Cwestiynwyd yr amser teithio ychwanegol y symud. Roedd ymrwymiad i sicrhau y byddai unrhyw symud i leoliad amgen yn ddigon agos at Ysgol Sŵn y Don fel y byddai unrhyw amser teithio ychwanegol yn cael ei gadw i'r lleiafswm.

Nid oedd Ysgol Cystennin ond 3.7 milltir oddi wrth Ysgol Sŵn y Don, ac yn nes neu o'r un pellter i gyfeiriad cartref nifer o ddisgyblion sy'n defnyddio'r adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Sŵn y Don yn bresennol

4.4.5 Llety

Bu ymholiad ynghylch y byddai'r gwaith adeiladu diweddar yn Ysgol Sŵn y Don wedi cymryd i ystyriaeth y nifer o ddisgyblion a ragwelwyd, gan gynnwys uchafswm niferoedd ar gyfer y ddau ddosbarth adnodd. Mae hyn yn wir, ac mae niferoedd disgyblion presennol yn parhau o fewn maint yr adeilad. Fe wnaed y cais gwreiddiol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol oherwydd cyfluniad dosbarth a'r dymuniad i gael grwpiau blwyddyn sengl mewn dosbarthiadau unigol.

4.4.6 Ysgol Cystennin

Roedd un o'r ymatebion yn dwyn sylw at pe bai'r dosbarth adnodd CA2 yn cael ei symud i Ysgol Cystennin na fyddai adnodd dysgu yn gwasanaethu dalgylch Bryn Elian. Yn wir, mae'r ddosbarth adnodd yn gwasanaethu Eirias a Bryn Elian (gan fwydo i'r ddwy ysgol uwchradd), a'r boblogaeth ehangach yng Nghonwy, a byddai hyn wedi parhau, pe bai'r dosbarth yn cael ei leoli yn Ysgol Cystennin.

4.4.7 Y manteision i'r ysgol ehangach

Dywedodd ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a gafwyd gan aelod o staff: *“Credaf pan oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sefydlu adnoddau yr holl flynyddoedd yn ôl, y dangosodd lleoliad adnodd babanod yn Ysgol Penmaenrhos ac adnodd iau yn Ysgol Tan y Marian gydnabyddiaeth o'r lefel o angen o fewn yr ardal ddifreintiedig hon yn gymdeithasol ac economaidd, a'i lefel uchel o ddisgyblion ADY – ac mae'r ddau ddosbarth wedi gwasanaethu yn effeithiol ers hynny. Roedd lleoli'r adnoddau hyn bryd hynny wedi'u hystyried a'u cynllunio'n dda. Mae parhau i ymrwymo i ariannu'r adnoddau AAA hyn yn wir gryfder y Sir a'i ymroddiad i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i ddisgyblion ADY ac yn arbennig disgyblion AAA.”*

5 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn fel rhan o'r asesiad hwn, gan ystyried cadw'r cydbwysedd a symud lleoliad. Nid oedd effaith arwyddocaol ar unrhyw grŵp.

6. Crynodeb ac Argymhellion

6.1 Crynodeb

Er bod nifer yr ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn fychan, galluogodd y drafodaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd ystyriaeth drwyadl a chadarn o'r cynnig, sydd wedi sicrhau canlyniad sy'n ymateb i anghenion yr ysgol a'r disgyblion presennol sy'n defnyddio'r ddau ddosbarth adnodd.

Mae'r cyfnod ymgynghori hwn wedi galluogi'r Awdurdod i sicrhau bod diddordebau pawb wedi cael eu hystyried a'u trin, ac y cyrhaeddwyd canlyniad derbyniol sy'n hyrwyddo gwerthoedd a gweledigaeth y Cyngor i'r holl bobl ifanc a'u teuluoedd, yn arbennig y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r cyfnod ymgynghori hefyd wedi rhoi amser i arweiniad a chorff llywodraethol Ysgol Sŵn y Don i feddwl am y cais gwreiddiol ac ail ystyried manteision tymor hir cynnal y cydbwysedd.

6.2 Argymhelliad

Yr argymhelliad ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn yw bod y ddau ddosbarth adnodd yn aros yn Ysgol Sŵn y Don, gyda'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n glos gyda'r ysgol i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn parhau i fod yn effeithiol ac wedi'i hintegreiddio'n dda i'r ysgol fel cyfanrwydd.

Fodd bynnag, argymhellir bod brwdfrydedd ac ymroddiad y pennaeth, y corff llywodraethol a staff addysgu Ysgol Cystennin i'r dosbarthiadau adnodd yn cael ei gydnabod. Teimla'r Awdurdod Lleol bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol iawn ar gyfer y ddarpariaeth adnodd dysgu yn y dyfodol. Mae ethos yr ysgol yn ffafriol i gynhwysiad llwyddiannus yr adnodd dysgu ac mae'r pennaeth wedi dangos dealltwriaeth gadarn o fanteision ac amcanion y ddarpariaeth adnodd. Cynigir bod yr Awdurdod Lleol nawr yn gweithio gyda'r ysgol i gefnogi darpariaeth a chynllunio ADY yn yr ysgol er mwyn

paratoi ymhellach ar gyfer unrhyw ymgynghoriad posibl ar adleoli neu ymestyn y ddarpariaeth adnodd yn y dyfodol.